



Cyhoeddi fframwaith newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Yn dilyn lobiö dyfal gan NASUWT ac yn dilyn negodi, mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru yn awr wedi cyhoeddi fframwaith cenedlaethol wedi'i ddiwygio'n sylweddol ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi.

Roedd NASUWT wedi codi pryderon difrifol am y fframwaith blaenorol oedd wedi golygu bod y cwmni New Directions wedi ennill y tendr drwy Gymru gyfan, ac wedi peri i awdurdodau lleol roi pwysau ar ysgolion i ddefnyddio New Directions yn unig. Roedd pryderon NASUWT yn ymwneud â'r cyfraddau cyflog, 'ffi'r canfyddwr' a'r arfer o osgoi hawliau athrawon o dan y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth drwy ddefnyddio 'contractau gwarantedig' (a elwir hefyd yn Rhanddirymiad Sweden').

Mae'r potensial gan y fframwaith newydd i wella cyflogau a thelerau ac amodau athrawon cyflenwi'n sylweddol, yn ogystal â rhoi gwell mynediad iddynt at gyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae wedi derbyn croeso ar y cychwyn fel hyn gan NASUWT am ei fod yn gam mawr i'r cyfeiriad cywir, er bod rhai cwestiynau'n parhau a nifer o faterion heb eu datrys.

Mae'r fframwaith newydd yn caniatáu i ddarparwyr gyflwyno bidiau yn lleol, yn rhanbarthol neu drwy Gymru gyfan, yn wahanol i'r fframwaith blaenorol oedd yn gorfod cael ei gyflenwi ar gyfer Cymru gyfan, gan olygu mai dim ond New Directions allai wneud bid. Bydd y newid yma'n dod ag amrywiaeth a darpariaeth leol a fydd yn braf ei weld. Bydd hefyd yn caniatáu i ysgolion ac awdurdodau lleol barhau i gyflogi gweithwyr cyflenwi'n uniongyrchol heb ddefnyddio asiantaethau.

Dyma brif elfennau eraill y fframwaith:

- cyfradd cyflog sy'n gyfatebol ag o leiaf y pwynt isaf yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD);
- gwaharddiad ar 'Randdirymiad Sweden';
- gofyniad i asiantaethau gytuno â chod ymarfer moesegol Llywodraeth Cymru ar gyflogi gweithwyr dros dro;
- safonau ansawdd diwydiannol yn rhan o sail y fframwaith;
- gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro mewn rôl nad ydynt wedi cael eu penodi iddi (e.e. talu cyflog goruchwyliwr cyflenwi i athro ac yna ddisgwyl iddo addysgu);
- graddfa symudol o daliadau ar gyfer trosglwyddo gweithwyr i gontractau parhaol (ffi'r canfyddwr) yn gostwng i sero ar ôl pythefnos; a
- chyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n rhad ac am ddim.

Ni fyddai'r fframwaith newydd yn rhoi mynediad i athrawon at ddarpariaeth Pensiynau Athrawon a hawliau i dderbyn cyflog llawn, ond er hynny mae'n welliant sylweddol ar y sefyllfa bresennol.

Mae NASUWT yn dal i ffafrio awdurdodau lleol sy'n trefnu cronfeydd athrawon cyflenwi ac ysgolion sy'n cyflogi athrawon yn uniongyrchol er mwyn rhoi'r hawl i bob gweithiwr dderbyn cyflog a phensiwn llawn,

Parhad drosodd

ac mae'n parhau i ddisgwyl i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia addysg i ddiogelu athrawon cyflenwi'n llawn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu diwygio'r Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) i ganiatáu i gyrrff llywodraethu ysgolion yn unig gyflogi athrawon cyflenwi drwy'r fframwaith newydd. Byddai'r newid yma'n dderbyniol iawn ond nid oes lle ar hyn o bryd yn amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru i ganiatáu i'r diwygiadau hyn gael eu sefydlu ac, felly, nid oes dyddiad gweithredu.

Mae'r cynigywyr posibl wedi derbyn y fframwaith newydd a bydd y statws yn cael ei ddyfarnu yn y gwanwyn flwyddyn nesaf i'w weithredu ym mis Medi 2019.

Mae NASUWT yn parhau i ymgyrchu dros roi mynediad i athrawon cyflenwi i'r Cynllun Pensiwn Athrawon ac am gyflogau ac amodau sy'n gyfatebol â'r rheiny ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion.

Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol – athrawon cyflenwi

O ganlyniad i'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a gyhoeddwyd ar ddydd Llun 12 Tachwedd 2018 gan yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, bydd y £9 miliwn a fuddsoddwyd mewn athrawon yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn cynyddu i £15 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd yr ariannu yma'n rhoi'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i ysgolion i gynllunio ymlaen ar gyfer y cwricwlwm newydd ac i sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ffordd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i les athrawon ac yn lleihau unrhyw amhariad ar ddysgu'r disgyblion.

Bydd yr arian hefyd yn helpu i sicrhau bod modd cael staff cyflenwi pan fydd staff yn cael eu rhyddhau ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau NASUWT hefyd y bydd cyfle i athrawon cyflenwi ddefnyddio'r ariannu i gefnogi eu dysgu eu hunain.

Aelodaeth AM DDIM

DEWCH I YMUNO Â NASUWT CYMRU HEDDIW
Undeb yr Athrawon  The Teachers' Union

**aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf
o'r dyddiad yr ymunwch â ni***

**Ar-lein ar
www.nasuwt.org.uk
neu ar y ffôn ar
03330 145550**



Ydych chi'n aelod yn barod?

Bydd pob aelod sy'n gwahodd athrawon eraill yn llwyddiannus i ymuno â nhw yn NASUWT yn derbyn tocynnau rhodd Love2shop hael.

Y cwbl sydd ei angen yw rhoi eich enw a'ch rhif aelodaeth iddynt i'w nodi pan fyddent yn ymuno.

*Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â NASUWT yn cael y flwyddyn gyntaf am ddim pan ddewisant dalu eu tanysgriafiad drwy ddefnyddio uniongyrchol yn y dyfodol.

GWAHODD WCH FFRIND I YMUNO Â NI